O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1428 (Cy. 253)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Ionawr 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i Y Fenni.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Rhagfyr 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

1. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr orllewinol pont

Seidins Pwll Glo’r Tower yr A465 sydd â’r rhif adnabod ‘370’ i’r gorllewin o hen Gylchfan y Rhigos (sef Cyffordd Trewaun yn fuan) yn y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

2. Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol pont Seidins Pwll Glo’r Tower yr A465 sydd â’r rhif adnabod ‘370’ i’r gorllewin o hen Gylchfan y Rhigos (sef Cyffordd Trewaun yn fuan) yn y Rhigos.

3. Y darnau cyfan o’r ffyrdd ymuno tua’r gorllewin a thua’r dwyrain yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd.

4. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach.

5. Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd.

6. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Resolfen.

7. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin yng Nghyfnewidfa Aberdulais.

8. Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd (gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r dwyrain yng Nghyfnewidfa Aberdulais) sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gogledd yng Nghyfnewidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen.